# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## CC(3)-13-08 (p2)

### Byrddau Cyfiawnder Troseddol Cymru

### Llysoedd Cam-Drin/Trais Yn Y Cartref

### Cyflwyniad

### 1 Rhagarweiniad

1. Mae'r pedwar Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol o Ogledd a De Cymru, Dyfed/Powys a Gwent yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Gam-drin yn y Cartref.

2. Mae'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn cynnwys yr Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol statudol sef yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Prawf lleol, Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi a Thimau Troseddau Ieuenctid a phartneriaid anstatudol eraill, Cymorth i Ddioddefwyr, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.  (Ar ben hynny, yng Ngwent mae cynrychiolwyr Prif Weithredwr o'r Awdurdodau Lleol, a rhai aelodau anweithredol annibynnol).

### 2 Cyfrifoldebau Allweddol

Cyfrifoldebau allweddol y Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yw:

a) Darparu Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol effeithiol ac effeithlon drwy reoli perfformiad ar y cyd, rheoli newid a manteision busnes.

b) Cynllunio lleol ar y cyd - gosod blaenoriaethau lleol a herio cynlluniau asiantaethau unigol o fewn fframwaith cenedlaethol o flaenoriaethau gweinidogol.

c) Hyrwyddo arferion da a dyfeisgarwch, trwy ymchwil a datblygu lleol, archwilio lleol ar y cyd a rheoli prosiectau ar y cyd.

d) Rheoli cysylltiadau gyda chyrff eraill ym maes gwasanaeth cyfiawnder troseddol, asiantaethau a phartneriaethau eraill a'r Farnwriaeth, a chyfathrebu'n effeithiol gyda'r trigolion lleol.

e) Cyfrannu at hyder y cyhoedd drwy fynd ati'n ddeinamig i ymgysylltu a rheoli cysylltiadau rhwng y byrddau, y cyhoedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Darparwyr Trydydd Sector a chyrff eraill y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol megis Cymdeithas yr Ynadon ac Awdurdod yr Heddlu.

f) Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a phartneriaethau eraill i sicrhau bod y Cytundeb  Gwasanaeth Cyhoeddus Cyfiawnder i Bawb yn cael ei gyflawni, a bod gwasanaethau a ddarperir yn deg ac yn ymateb i anghenion y cyhoedd yng Ngwent.

g) Gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol, Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol a noddwr y Bwrdd i wella perfformiad drwy'r amser.

h) Cydlynu a chynghori ynghylch materion cymunedol ac amrywiaeth, gan gynnwys Deddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a Chynllun Cydraddoldeb Hiliol.

i) Datblygu cynlluniau cyflawni i wella gwasanaethau, mabwysiadu arferion da, gweithredu ar ymchwil, ac adroddiadau gwerthuso a datblygu, arolygiadau ac archwiliadau asiantaethau unigol ac ar y cyd, ac adolygu cynnydd y cynlluniau cyflawni drwy'r Rheolwr Cyflawni Lleol yn Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol.

j) Sefydlu trefniadau ymgynghori i'w cynnal yn aml ym mhob ardal leol, gan sicrhau yr ymgynghorir â phob asiantaeth/grŵp sydd â diddordeb ynghylch targedau a chynlluniau mentrau lleol.

k) Darparu fforwm ar gyfer cydlynu a chyd-gynllunio rhwng y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol ac asiantaethau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol ar faterion trawsbynciol.

Yn benodol, mae'r pedwar bwrdd cyfiawnder troseddol lleol wedi cymryd yr awenau yn eu hardaloedd perthnasol ar ddatblygu darpariaethau arbennig.  Mae'r canlynol yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ym mhob un o'r pedair ardal cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

### 3. Gogledd Cymru

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru yn cael ei gadeirio ar hyn o bryd gan Ed Beltrami sy'n Brif Erlynydd y Goron.  Cefnogir y Bwrdd gan nifer o is-grwpiau.  Mae'r is-grŵp Ymchwiliadau a Rheoli Treialon yn monitro perfformiad ar bolisi trais yn y cartref a chyrhaeddodd yr Ardal ei tharged o gyfradd euogfarnau o 71% ar gyfer 2007-2008.  Ceir is-grŵp hefyd sy'n monitro ein perfformiad ar ddioddefwyr a thystion a chanolbwyntir yn benodol ar y gwasanaeth a ddarparwn i ddioddefwyr camdriniaeth yn y cartref.  Mae gennym dîm gofal tystion ym mhob un o swyddfeydd Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n cael eu staffio gan weithwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu.  Mae rheolwr ein Tîm Gofal Tystion yn mynd i gyfarfodydd Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth (CARAA).

Mae'r Bwrdd yn llwyr gefnogi Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref a rôl yr Eiriolwr Annibynnol. Sefydlwyd Llys Arbennig Trais yn y Cartref yn Wrecsam a gefnogir gan Eiriolwr Annibynnol Trais yn y Cartref (EATC). Bu hyn yn llwyddiannus dros ben. Drwy neilltuo diwrnodau penodol ar gyfer achosion Trais yn y Cartref, mae'r llysoedd a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gallu sicrhau mai staff sydd wedi'u hyfforddi'n drwyadl fydd yn delio ag achosion trais yn y cartref. Mae'r EATC yn mynd i'r llysoedd ar gyfer adolygiadau cyn treial ar ôl cysylltu â'r erlynydd y diwrnod cynt er mwyn tynnu sylw at yr achosion hynny lle gallai'r EATC dawelu ofnau dioddefwyr a helpu i'w perswadio i fynd i'r llys a chefnogi erlyniadau.

Rhagwelwyd y byddai'r Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref yn cael eu sefydlu ledled Gogledd Cymru ond cafwyd problemau. Llwyddodd cais i achredu Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref yn Sir y Fflint ond gwrthododd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint roi'r arian i gyfateb i gyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer cael EATC ac oedwyd y broses o roi hyn ar waith. Gwrthodwyd y cais gan Gonwy a Sir Ddinbych, ein Hadran Ganolog, er bod EATC ar gael yn Sir Ddinbych. Arian dros dymor byr ydyw ac mae diffyg Llys Arbennig Trais yn y Cartref yn y rhanbarth Canolog wedi effeithio ar ddatblygiad. Yn y Gorllewin, ni fu unrhyw gynnydd hyd yma. Rhanbarth y Gorllewin sydd â'r nifer uchaf o lysoedd ac nid oes yr un llys yn creu digon o waith trais yn y cartref i gyfiawnhau cael Llys Arbennig Trais yn y Cartref.

Cynigir mai cydweithio effeithiol rhwng yr asiantaethau yw'r allwedd i oresgyn trais yn y cartref yn effeithiol. Dim ond rhan o'r ateb yw erlyniadau troseddol ac mae rheoli risg yn effeithiol yn hanfodol wrth benderfynu pa achosion y dylid bwrw ymlaen â hwy ac ym mha achosion y dylid gorfodi dioddefwyr i fynd i'r llys. Gall yr EATC chwarae rôl hollbwysig yn y broses hon. Mae'n anffodus bod EATC Wrecsam wedi penderfynu ymddiswyddo'n ddiweddar. Ei phrif resymau oedd ansicrwydd ynghylch cyllid ac felly diogelwch y swydd ac yn ail, diffyg strwythur rheolaeth linell briodol.

Mae gan aelodau'r Bwrdd sawl rôl i'w chwarae wrth wella ymateb y System Cyfiawnder Troseddol i oresgyn trais yn y cartref. Yn gyntaf, fel Prif Swyddogion mae'n rhaid iddynt sicrhau bod ganddynt staff ymroddedig sydd wedi'u hyfforddi'n drwyadl a fydd yn perfformio i'r safonau uchaf ym mhob cam o'r broses. Yn ail, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod yr amrywiol asiantaethau'n cydweithio. Mae hyn yn dechrau gyda'r protocol trais yn y cartref a luniwyd i sicrhau yr ymchwilir yn drwyadl i achosion trais yn y cartref a bod yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio fel tîm i sicrhau bod achosion priodol yn cael eu herlyn yn effeithiol o'r dechrau i'r diwedd. Yn drydydd, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod dioddefwyr yn cael y lefel briodol o ofal drwy gydol y broses o'r adeg y byddant yn cwyno tan ddiwedd yr achos ac mae hyn yn golygu bod yn rhaid cael cyswllt priodol gyda phob un o'r asiantaethau perthnasol sy'n gysylltiedig.

Rydym yn falch o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud hyd yma. Mae lefel ein heuogfarnau wedi cynyddu'n sylweddol ac mae safon y gofal a ddarparwn i ddioddefwyr wedi gwella'n arw. Yng nghynhadledd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ddwy flynedd yn ôl, rhoddwyd sylw penodol i'r pwnc hwn a chafwyd cyflwyniadau grymus dros ben gan rai o ddioddefwyr camdriniaeth yn y cartref. Cafodd hyn effaith barhaol ar bawb a fynychodd ac mae wedi rhoi pwys ar bwysigrwydd y maes gwaith hwn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gennym lawer mwy i'w wneud ac mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol - mae datblygu Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref ar draws yr Ardal a phenodi Eiriolwyr Annibynnol Trais yn y Cartref yn rhan ganolog o hynny.

I'r perwyl hwnnw, argymhellir y dylid rhoi sylw i'r mater o gyllido Eiriolwyr Annibynnol Trais yn y Cartref. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyllid tymor hir ar gyfer y swyddi hyn. Dyma'r unig ffordd y gallwn ddenu a chadw pobl o'r safon briodol. Mae'n amlwg nad yw'r system bresennol yn gweithio lle rhoddir cyllid i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a fydd efallai'n cefnogi'r cynllun neu ddim yn ei gefnogi, ac rydym wedi colli EATC abl yn Wrecsam o ganlyniad i hynny.

Yn ail, mae'n rhaid cael rheolaeth linell glir gan asiantaeth statudol ac yn fy marn i, y gwasanaeth prawf ddylai wneud hynny gan y byddai Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu'n cael eu cyhuddo o ddylanwadu'n anuniongyrchol ar dystion a byddai'r llysoedd am gadw eu hannibyniaeth ac ni fyddent am gael eu gweld yn cefnogi tystion a elwir gan yr erlyniad.

### 4 De Cymru

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru yn cynnwys aelodau'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd EM, Gwasanaeth Carchardai EM, a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (aelod a wahoddwyd). Barbara Wilding, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru sy'n ei gadeirio ar hyn o bryd. Cefnogir y Bwrdd gan dri aelod o staff amser llawn. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob dau fis ac mae wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen gydag amrywiol is-grwpiau syml yn gweithio iddo. Bwriedid i'w strwythur ddiwallu gofynion Cynllun Busnes 2008/09 a'r cynllun strategol tair blynedd ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol ledled Cymru a Lloegr. Mae cylch gorchwyl dau o'r is-grwpiau yn cynnwys cylch gwaith penodol i fynd i'r afael â Cham-drin yn y Cartref: Yn fanwl, y rhain yw:

#### Is-grŵp Boddhad Dioddefwyr a Thystion - paragraff 4

Sicrhau bod polisïau a mecanweithiau presennol ar gyfer cefnogi dioddefwyr trais yn y cartref yn dal i fod yn ddibynadwy ac yn effeithiol dros amser, a'u bod yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posibl.

#### Is-grŵp Rheoli Troseddwyr - paragraff 4

Mynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol dros droseddu, drwy sicrhau bod troseddwyr yn cael cyfle i gael asesiad arbenigol a gwasanaethau cyfeirio (trwy gydol y broses erlyn yn ogystal ag ar ôl eu cael yn euog) a bod y farnwriaeth yn cael cefnogaeth a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyfleusterau hyn wrth ddedfrydu. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gategorïau neu droseddwyr penodol, gan gynnwys y sawl sy'n cam-drin yn y cartref.

O fewn hen strwythur y Bwrdd, comisiynwyd yr is-grŵp Trais yn y Cartref i lunio Protocol Trais yn y Cartref ar gyfer De Cymru (Medi 2005) ac ar gyfer ei roi ar waith wedyn a'i adolygu'n rheolaidd. Mae'r protocol yn gosod y trefniadau a'r gweithdrefnau ar gyfer delio ag achosion trais yn y cartref ledled De Cymru ac, wrth baratoi'r ddogfen, bu'r is-grŵp Trais yn y Cartref yn ymgynghori ag amrywiol sefydliadau gan gynnwys Uned Diogelwch Menywod Caerdydd a Chymorth i Ddioddefwyr a roddodd gyngor ac arweiniad gwerthfawr.

Chwaraeodd yr is-grŵp Trais yn y Cartref rôl ganolog hefyd wrth gyflwyno Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref yn Ne Cymru ac wrth nodi unrhyw ddiffygion yn y prosesau casglu data.

Roedd yr is-grŵp yn allweddol hefyd, ar y cyd â Thîm Trosedd y Swyddfa Gartref a leolwyd yng Nghynulliad Cymru, wrth sefydlu fforwm Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref Cymru gyfan.

Ym mis Mawrth 2007, rhoddodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru £12,000 i'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhyw (SARC) yng Nghaerdydd. Un o brif amcanion y Ganolfan yw cynyddu lefelau rhoi gwybod am drosedd, darparu gofal i ddioddefwyr a thystion a chasglu tystiolaeth mewn achosion o ymosodiadau rhyw. Mae'r uned yn darparu model 'continwwm gofal' ar gyfer dioddefwyr a gaiff eu cyfeirio at y Ganolfan. Mae'r dull gweithio aml-asiantaeth sy'n sail i'r Ganolfan yn darparu gwybodaeth am gysylltiadau ac arferion gweithio asiantaethau allweddol ar draws y sbectrwm o asiantaethau cyfiawnder troseddol, sector gwirfoddol, iechyd a statudol. Ar ben hynny, dangoswyd bod ymatebion aml-asiantaeth yn cynyddu boddhad a hyder ymysg y cyhoedd mewn meysydd perthnasol, yn arbennig cam-drin yn y cartref.

Yn 2006, rhoddodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru gyllid cychwynnol (£5250) i'r gwasanaeth carchardai er mwyn iddo gychwyn rhaglen cyfiawnder adferol o'r enw 'SORI'. Nodwedd newydd y rhaglen ddylanwadu oedd nad oedd yn ceisio paru'r dioddefwr yn uniongyrchol â'r sawl a oedd wedi cyflawni'r trosedd, ond yn hytrach yn ceisio paru'r sawl a oedd wedi cyflawni un trosedd gyda'r sawl a oedd wedi dioddef trosedd arall. Fel hyn, roedd rhaglen 'SORI' yn gallu cyrraedd dioddefwyr trais yn y cartref lle nad oedd rhaglenni cyfiawnder adferol confensiynol (lle caiff y dioddefwr ei baru'n uniongyrchol â'r sawl sy'n cyflawni'r trosedd) yn gallu eu cyrraedd oherwydd y risg barhaol i'r dioddefwr. Yn yr un modd, gellid paru'r sawl sy'n cyflawni trais yn y cartref dan raglen 'SORI' gyda'r sawl sydd wedi dioddef trosedd gwahanol. Mae dioddefwyr trais yn y cartref wedi cael budd mawr o gyfrannu mewn rhaglen cyfiawnder adferol heb orfod wynebu peryglon o'r newydd, ac maent wedi dangos lefel uchel o foddhad o'r ymarfer. Yn yr un modd, mae'r sawl sy'n cyflawni trais yn y cartref wedi cael eu herio mewn ffordd newydd. Mae'n galonogol bod y prosiect cychwynnol wedi datblygu'n rhaglen lawn erbyn hyn o fewn gwasanaeth carchardai Cymru a Lloegr, lle mae dull 'SORI' yn cael ei ymestyn i garchardai ledled Cymru a Lloegr. Mae aelod o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru ar y grŵp llywio cenedlaethol ar gyfer gweithredu 'SORI' yn y gwasanaeth carchardai.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, cyflwynodd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol raglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer pob un o'i asiantaethau yn dwyn y teitl "it's not just a domestic" a daeth nifer o staff o'r asiantaethau sy'n aelodau i'r hyfforddiant. Hefyd cefnogodd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol gynhadledd arbennig ar drais yn y cartref ar gyfer Cymru gyfan gydag aelodau'r asiantaethau sy'n rhan o'r Bwrdd yn cyfrannu.

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru yn gweithio gyda'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ledled De Cymru (7 i gyd) drwy bennu aelod i bob Partneriaeth. Mae canolbwyntio ar drais yn y cartref yn bwynt uno cryf rhwng y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Mae tri aelod o'r Bwrdd yn eistedd ar Grŵp Pontio Arweinyddiaeth De Cymru sy'n grŵp ymbarél ar gyfer y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac maent yn dod gyda hwy i'r grŵp hwnnw brofiad ac ymarfer y bwrdd wrth ddelio â Thrais yn y Cartref yn y System Cyfiawnder Troseddol.

## 5 Dyfed Powys

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed Powys wedi ymrwymo i ddarparu llysoedd arbennig trais yn y cartref, ac aelod arweiniol y bwrdd yw Luigi Strinati, Cyfarwyddwr Ardal GLlEM.

Sefydlir Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref i sicrhau bod system effeithiol a chyflym ar waith ar gyfer prosesu a gwrando pob achos cam-drin yn y cartref. Mewn llysoedd o'r fath mae ynadon a chynghorwyr cyfreithiol yn eistedd ac maent wedi cael hyfforddiant ychwanegol i ddelio ag achosion cam-drin yn y cartref. Mae staff allweddol asiantaethau hefyd yn derbyn hyfforddiant ychwanegol er mwyn iddynt allu delio ag achosion cam-drin yn y cartref.

Mae gan Sir Benfro Lys Arbennig Trais yn y Cartref ers 2006. Y strategaeth oedd cyflwyno'r llysoedd hyn yn ôl yr angen mwyaf, ac ar y sail hon, dewiswyd Sir Benfro yn gyntaf. Mae'r cynllun wedi dibynnu ar gyllid ar gyfer darparu Cynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref (CATC), a chydag arian ychwanegol a gafwyd, darparwyd Llys Arbennig Trais yn y Cartref yn Sir Gaerfyrddin ym mis Chwefror 2008. Bydd yn rhaid sicrhau nawdd parhaus ar gyfer prosiectau sir Gaerfyrddin a Sir Benfro i gyllido swydd CATC ym mhob ardal; a bydd angen arian hefyd i gyflwyno llysoedd trais yn y cartref yng Ngheredigion a Phowys gan ddarparu CATC ym mhob ardal.

Penderfynwyd sefydlu Grŵp Llywio Strategol cyffredinol ar gyfer Dyfed Powys a'i dasg fydd datblygu atebion priodol o ran Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref yng Ngheredigion a Phowys. Bydd y Grŵp yn amlwg yn ceisio sicrhau bod cysondeb o ran dulliau gweithredu a darparu ledled Dyfed Powys, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol.

Yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro mae Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref yn eistedd bob wythnos ond mae darpariaeth o'r fath yn dibynnu ar lefel ddigonol o waith. Yng Ngheredigion a Phowys lle nad oes efallai ddigon o lwyth gwaith i warantu llysoedd arbennig bob wythnos, efallai y bydd yn rhaid datblygu trefniadau eraill a fydd yn dal i alluogi delio ag achosion cam-drin yn y cartref yn effeithiol ac yn gyflym. Pa drefniadau bynnag a ddatblygir gan y Grŵp Llywio Strategol, bydd yn hanfodol bod Cynghorydd Annibynnol Trais yn y Cartref yn cael ei ariannu ac ar gael, pan fydd angen, a bod y llysoedd yn cael eu cefnogi gan ynadon, cynghorwyr cyfreithiol a staff asiantaeth sydd wedi cael hyfforddiant priodol.

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Fforymau Cam-drin yn y Cartref yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o ddatblygu a chefnogi'r ddarpariaeth o lysoedd trais yn y cartref.

## 6 Gwent

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gwent wedi bod yn gweithio'n galed i wella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr camdriniaeth yn y cartref. Mae'r Bwrdd yn croesawu cyflwyno cefnogaeth gan Eiriolwyr Annibynnol Trais yn y Cartref yn y llysoedd. Wrth weithio gyda phartneriaid eraill megis Swyddogion Trais yn y Cartref yr heddlu, Swyddogion Gofal Tystion yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, mae dioddefwyr yn derbyn gwybodaeth berthnasol am eu hachosion, a chefnogaeth briodol drwy gydol y broses.

I sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n ddidrafferth rhwng asiantaethau, cynhaliodd y Bwrdd yn ddiweddar Ddiwrnod Datblygu Staff Llys Arbennig Trais yn y Cartref. Yn y digwyddiad hwn, cafodd ymarferwyr gyfle i drafod a rhannu syniadau ynghylch beth yw'r ffordd orau o gefnogi dioddefwyr a thystion achosion Cam-drin yn y Cartref. Roedd hyn yn cynnwys datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn y gwasanaeth a ddarperir, ac osgoi dyblygu ymdrechion.

## 7 Casgliad

Mae'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ledled Cymru yn falch o gael cyfle i gyflwyno tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor ar Gam-drin yn y Cartref, ac yn gobeithio bod yr uchod o fudd.

Dylid cysylltu â'r Rheolwyr Busnes yn y cychwyn cyntaf ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Gogledd Cymru - M

ike.Mullis@nthwales.pnn.police.uk

De Cymru- C

aroline.Richards@south-wales.pnn.police.uk

Dyfed/Powys - A

manda.Duffy@cps.gsi.gov.uk

Gwent - K

athy.Ikin@gwent.pnn.police.uk